# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mawrth, 30 Ionawr 2024

Amser y cyfarfod: 13.30

# 186(v4)

Cynhelir y cyfarfod hwn ar ffurf hybrid, gyda rhai Aelodau yn Siambr y Senedd ac eraill yn ymuno drwy gyswllt fideo.

## 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

(30 munud)

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

## 3 Datganiad gan y Prif Weinidog: Adroddiad terfynol y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru

(45 munud)

## 4 Datganiad gan y Gweinidog Newid Hinsawdd: Papur gwyn ar Fil arfaethedig ar egwyddorion amgylcheddol, llywodraethu amgylcheddol, a thargedau bioamrywiaeth

(30 munud)

## 5 Datganiad gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip: Diwrnod Cofio’r Holocost

(30 munud)

## 6 Datganiad gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd: Blas Cymru

(30 munud)

## 7 Dadl: Adroddiad Blynyddol 2022-23 Comisiynydd y Gymraeg

(60 munud)

**NDM8463** Lesley Griffiths (Wrecsam)

Cynnig bod y Senedd:

Yn nodi Adroddiad Blynyddol Comisiynydd y Gymraeg 2022-23.

Adroddiad Blynyddol: 2022-2023 Comisiynydd y Gymraeg

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1** Heledd Fychan (Canol De Cymru)

Ychwanegu pwyntiau newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi gwaith y Comisiynydd i annog sefydliadau yn y sector preifat, megis y sector bancio, i ddefnyddio'r Gymraeg ar sail anstatudol.

Yn cytuno y dylai banciau fod yn ddarostyngedig i safonau'r Gymraeg statudol.

## Cynnig o dan Reol Sefydlog 12.24 i gynnal dadl ar eitemau 8 a 9 gyda'i gilydd ond gyda phleidleisiau ar wahân

(60 munud)

## 8 Egwyddorion cyffredinol Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau)

**NDM8464** Mick Antoniw (Pontypridd)

Cynnig bod Senedd Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.11:

Yn cytuno i egwyddorion cyffredinol Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau).

Gosodwyd Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) a'r Memorandwm Esboniadol gerbron y Senedd ar 18 Medi 2023.

Gosodwyd adroddiad y Pwyllgor Biliau Diwygio ar Fil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) gerbron y Senedd ar 19 Ionawr 2024.

**Dogfennau Ategol**

Adroddiad y Pwyllgor Cyllid

Adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Ymateb gan y Pwyllgor Safonau Ymddygiad i adroddiad y Pwyllgor Biliau Diwygio

Ymateb gan y Pwyllgor Busnes i adroddiad y Pwyllgor Biliau Diwygio

Ymateb gan Gomisiwn y Senedd i adroddiad y Pwyllgor Biliau Diwygio

Ymateb gan Fwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd i adroddiad y Pwyllgor Biliau Diwygio

Ymateb gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad i adroddiad y Pwyllgor Biliau Diwygio

Ymateb gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad i adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Ymateb gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad i adroddiad y Pwyllgor Cyllid

## 9 Y penderfyniad ariannol ynghylch Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau)

**NDM8465** Mick Antoniw (Pontypridd)

Cynnig bod Senedd Cymru, at ddibenion unrhyw ddarpariaethau sy'n deillio o Fil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau), yn cytuno i unrhyw gynnydd mewn gwariant o'r math y cyfeiriwyd ato yn Rheol Sefydlog 26.69, sy'n codi o ganlyniad i'r Bil.

## 10 Cyfnod pleidleisio

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mercher, 31 Ionawr 2024